



Manteision yr Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol

O 1 Gorffennaf 2018 ymlaen, un o'r safonau newydd a gyflwynir o fewn cynllun FAWL yw Adolygiad Blynyddol Iechyd a Lles Da Byw (8c). Mae'r safon hwn yn nodi bod yn rhaid cynnal adolygiad blynyddol gyda milfeddyg y fferm ac mae'n rhoi cyfle i gael trafodaeth ynghylch arferion defnyddio gwrthfotigau a chyffuriau anthelmintig. (Gweler erthygl Adolygu safonau FAWL am y rhesymeg wrth wraidd cyflwyno'r safon newydd).

Bu llawer o sôn yn ystod y blynyddoedd diwethaf am broblemau ynghylch ymwrthedd i gyffuriau anthelmintig a'r heriau mae hynny'n ei achosi wrth geisio rhedeg menter da byw lwyddiannus, ac wrth ddiogelu triniaethau lladd llyngyr i'r dyfodol. Gellir dweud yr un peth am driniaethau rheoli pry'r afu, yn seiliedig ar lefelau ymwrthedd i Triclabendazole a welwyd.

Gwrthfotigau

Rhoddir sylw hefyd i'r defnydd o wrthfotigau a Gwrthfotigau Hollbwysig â'r Flaenoriaeth Uchaf (HP-CIA) o fewn y diwydiant cig coch. Bydd yr Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol yn rhoi cyfle i aelodau drafod wyneb yn wyneb gyda milfeddyg y fferm er mwyn monitro a thrafod y triniaethau sy'n cael eu defnyddio ar y fferm. Gellir trafod effeithiolrwydd y triniaethau hynny a sut y gallai'r defnydd o frechiadau o bosibl leihau'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd.

Mae Claire Jones o Milfeddygon Dolgellau Cyf wedi bod yn gweithio'n ddiweddar gyda'u cleientiaid i ddatblygu Clwb Iechyd Diadell o fewn y practis. Mae'r Clwb Iechyd Diadell yn cynnal cyfarfodydd amrywiol drwy gydol y flwyddyn ac yn anfon milfeddyg dynodedig i ymweld â'r fferm er mwyn trafod Cynllun Iechyd a chynnal Adolygiad Iechyd a Lles. Mae Claire yn credu'n gryf y bydd Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol ochr yn ochr â Chynllun Iechyd cadarn yn galluogi ffermwyr i ddefnyddio'r triniaethau sydd ar gael yn fwy effeithiol. Bydd hefyd yn helpu i reoli'r defnydd o rai grwpiau anthelmintig ac yn y blaen.

Sylwadau Milfeddyg

"Mae pwyslais mawr ar fonitro'r gwrthfotigau a'r cyffuriau anthelmintig a ddefnyddir o fewn yr holl sectorau da byw. Bydd creu a chynnal adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol yn rhoi cyfle i'r ffermwr ac i ni drafod y problemau iechyd sydd ganddynt ar eu fferm, a sut maent yn mynd i'r afael â'r problemau hynny."

Pan ofynnwyd iddi sut oedden nhw'n bwriadu ymweld â'r ffermydd o fewn y practis, dywedodd Claire:

"Gallwn fod yn hyblyg ynghylch pryd a sut fyddai ffermwr eisiau cwblhau'r adolygiad. Gallant ymweld â ni yn y practis lle bydd gennym fanylion y meddyginiaethau y maen nhw wedi eu prynu wrth law, neu os ydynt yn rhan o Glwb Iechyd Diadell gallwn drefnu ymweliad penodol i drafod beth sydd ganddynt mewn golwg."



Claire Jones o Milfeddygon Dolgellau Cyf yn trafod agweddau ar gwblhau Adolygiad Iechyd a Lles Da Byw Blynyddol gydag un o gleientiaid y practis, Emlyn Roberts.

Mae copi o Adolygiad Iechyd a Lles da byw blynyddol ar gael ar wefan FAWL www.fawl.co.uk

Neges y Cadeirydd

Croeso i gylchlythyr haf Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf. Rwy'n gobeithio y bydd yr erthyglau yn ddiddorol ac yn addysgiadol i chi. Fe gofiwch ein bod yng nghylchlythyr y Gwanwyn wedi rhoi gwybod am newid i safonau FAWL a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf. Ni fydd yr un wythnos yn mynd heb ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd, a'r byd amaethyddol yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft o ble mae'n rhaid gwneud gwelliannau i sicrhau dyfodol y cynhyrchion hollbwysig hyn. Mae Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf yn rhoi pwyslais mawr ar y mater hwn, ac yn credu bod modd i ni ddangos bod aelodau'n cydweithio'n agos gyda'u milfeddyg i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu defnyddio'n gyfrifol ar ffermydd Cymru. Mae ein llafur ar hyn o bryd yn sicrhau enillion da gyda phrisiau cig oen ac eidion ar lefel sy'n rhoi incwm rhesymol i ffermwyr. Er hynny, mae dyfodol tymor-hir y diwydiant yn y fantol wrth i wleidyddion geisio sicrhau cyllideb a pholisi amaethyddol i Gymru yn dilyn Brexit. Ar ôl wynebu gaeaf a gwanwyn hir a heriol iawn, rydym ar hyn o bryd yn mwynhau tywydd braf ddechrau'r haf, ond wrth ysgrifennu'r geiriau hyn, gallew'n wneud ag ychydig o law. Mae amser yn hedfan, a'r Sioe Frenhinol ar y gorwel. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i Faldwyn sy'n noddi'r Sioe eleni, ac yn arbennig i Lywydd y Sioe sef Tom Tudor (un o gyn-gadeiryddion Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf).



Pob dymuniad da i'r tymor.
David Bebb-Evans, Cadeirydd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf

Prosiect Casglu Data Carbon

Yn ddiweddar, mae WLBP wedi gweithio ar brosiect ochr yn ochr ag ADAS a Phrifysgol Bangor i gasglu data a gaiff ei ddefnyddio i greu Ôl



Troed Carbon Ar-lein a theclyn cyfrifo Maint Elw Gros.

Wedi'i ariannu gan Gynllun Datblygu Cefn Gwlad Llywodraeth Cymru, bydd y teclyn yn rhoi'r cyfle i fusnesau fferm yng Nghymru asesu eu mentrau cig eidion, cig oen neu laeth a chymharu eu hunain yn ddiennw ymysg eu cyfoedion. Bydd hyn yn galluogi ffermwyr Cymru i arddangos gwelliant parhaol a sicrhau rhywfaint o fantais marchnad er mwyn gwrthbwysu unrhyw anawsterau yn y dyfodol.

Mae ADAS wedi cynhyrchu teclyn casglu data ar-lein oedd wedi'i boblogaethu gan aseswyr gwarant fferm ar sail wirfoddol a gytunwyd gan WLBP.

Ar y cyfan, mae'r adborth wedi bod yn bositif gyda sawl ffarmwr yn ymgysylltu ac yn cyfrannu tuag at elfen maent yn gweld sydd gyda'r potensial i hyrwyddo cig coch. Roedd llawer hefyd yn ymwybodol o'r potensial i leihau eu hól troed carbon o ran allbwn menter a phroffidioldeb.

Yr adborth mwyaf positif gan lawer o ffermwyr oedd eu bod nhw heb ystyried faint roeddynt yn gwario ar rai "mewnbynau" carbon cyn yr ymarfer yma, a bod trosi hyn i bunnoedd wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd maent yn meddwl. Sylweddolodd rhai ffermwyr y gallant newid rhai o'u harferion i wella eu sefyllfa o ran carbon ond hefyd yn bwysicach iddynt leihau eu costau mewnbyn.

Roedd yr ymarfer ar y cyfan yn un gwerth chweil gyda llawer o ffermwyr blaengar yn gweld yr angen ac yn bwysicach yn gweld manteision o gael y cyfle yn y gadwyn cyflenwi. Roedd yr ymateb gan nifer o ffermwyr yn bositif gyda llawer yn gweld y rhinweddau positif o eistedd lawr ac ailfeddwl rhai o'u harferion ffermio traddodiadol yn enwedig o ran mewnbynau 'Carbon'.

Gwefan a Datblygiad Cofnodion Fferm

Mae gwasanaethau ar-lein yn dod yn fwy perthnasol i bob diwydiant, gan gynnwys amaeth. Wrth i fwy o bobl ddefnyddio'r we drwy eu ffonau clyfar neu a'u llechi mae WLBP yn gweld ei bod hi'n bwysig parhau i ddiweddarau ein cyfleusterau ar-lein.

Ar hyn o bryd rydym ni'n gweithio gyda'n datblygwyr i ailwampio ein gwefan.

Bydd y safle newydd yn fwy rhyngweithiol a chaiff ei diweddarau'n gyson gyda newyddion a gwybodaeth ar holl weithgareddau WLBP yn cynnwys FAWL, Welsh Organic a QWFC. Gellir gweld y wefan ar bob dyfais yn cynnwys ffonau clyfar a thabledi.



Ein nod yw bod â gwefan ryngweithiol lle mae aelodau'n gallu lawrlwytho ac argraffu dogfennau. Fel hyn, bydd aelodau'n gallu gweld eu dogfennau perthnasol yn syth. Bydd y wefan hefyd yn parhau i fod yn blatfform ar gyfer ein hofferyn Online Web Checker, lle bydd aelodau, prynwyr ac adwerthwyr yn gallu gwirio statws sicrwydd pob un o'n haelodau FAWL.

Rydym ni hefyd yn y broses o ddatblygu ein cyfleuster Cofnodion Fferm WLBP. Bydd hyn yn digwydd mewn 3 rhan gyda'r cyntaf yn digwydd ym mis Gorffennaf gyda diweddariadau yn Llyfr Rheoli FAWL. Yr ail ran fydd ein Cynllun Iechyd ar-lein. Rydym ni am wneud hwn yn declyn mwy hygyrch a rhyngweithiol lle bydd aelodau'n gallu cyfeirio ato drwy gydol y flwyddyn waith. Bydd y drydedd rhan yn ddiweddariad o ran edrychiad a chynllun safle Cofnodion Fferm WLBP. Bydd gan y fformat newydd dabiau wedi'u diffinio'n glir fydd yn eich cyfeirio chi at yr adran briodol. Bydd ganddo hefyd wasanaeth hysbysu lle bydd hysbysiaid atgoffa a rhybuddion yn cael eu gyrru atoch drwy e-bost neu i'ch ffôn.

Credwn y bydd y diweddariadau yma'n cryfhau ein cyfleuster offer ar-lein ni a chredwn y bydd aelodau'n gallu manteisio'n fawr drwy eu defnyddio.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Llyr Lewis os gwelwch yn dda ar 01970 636688 / 07741 549270, e-bost: llyrl@wlbp.co.uk neu ewch i'n gwefan Cofnodion Fferm: www.farmrecords.wlbp.co.uk

Meddalwedd Cofnodion Fferm WLBP ar-lein ar gael i aelodau WLBP (FAWL, Cynllun Laeth, ac Organig Cymru)



- Modd cysylltu gyda BCMS a EID Cymru
- Cofnodion diadell a buches
- Meddyginiaethau a thriniaethau (gan gynnwys casglu defnydd gwrthfotig)
- Diweddaru'r meddalwedd yn digwydd yn awtomatig
 - Lleihau gwaith papur
 - Llyfr Rheolaeth FAWL
 - Cynllun Iechyd
 - Cefnogaeth am ddim



Cofrestrwch ar: www.farmrecords.wlbp.co.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Llyr Lewis: Ffon symudol: 07741 549270 Swyddfa: 01970 636688 E-bost: llyr@wlbp.co.uk

Sion Ifans: E-bost: sionifans@wlbp.co.uk

Sioe Frenhinol 2018

Fe fyddwn ni'n bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru eleni yn adeilad WAOS (E351 rhwng adeiladau ITV Cymru Wales ac FUW). Bydd staff WLBP yno i gynorthwyo neu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mi fyddwn ni hefyd yn cynnig cymorth a chynghor ynglŷn â sut i ddefnyddio ein hoffer ar-lein gan gynnwys Cofnodion Fferm.



Ailgylchu

Fe fyddwch chi'n ymwybodol o'r cyhoeddusrwydd cynyddol yn ddiweddar ynghylch defnyddio plastig o fewn diwydiant ac yn y cartref a'r effaith niweidiol bosibl ar yr amgylchedd.

Mae ailgylchu bellach yn rhan o'n bywyd bob dydd. Mae hefyd yn elfen bwysig o fewn safonau FAWL.

Safon FAWL 18c: Gellid ond cael gwared ar wastraff plastig ee. wrap silwair drwy weithredwr gwastraff sydd â thrwydded berthnasol y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

O fewn ein hamgylchedd swyddfa yn WLBP, papur yw'r prif gyfraniad i'n gwastraff. Ar hyn o bryd rydym ni'n lleihau ein defnydd papur drwy ddatblygu ein gwefan a chyfleuster offer ar-lein pwrpasol. I ni allu gweld newid arwyddocaol yn ein defnydd papur hoffem i chi, ein haelodau, gydweithio â ni a chymryd mantais o'r manteision ar-lein a grëwyd ar eich cyfer chi. Rydym ni'n awyddus i chi dderbyn gwybodaeth yn electronig a fydd, maes o law, yn lleihau'r galw am bapur. Os hoffech dderbyn eich gohebiaeth drwy e-bost, cysylltwch â'r swyddfa ar **01970 636688** os gwelwch yn dda.

Ar hyn o bryd rydym ni'n rhan o gynllun casglu toner/cetris argraffu sydd eisoes wedi'u defnyddio, lle mae pob un gydran o'r cetris sydd wedi'u defnyddio yn cael eu casglu o'n swyddfa a naill ai'n cael eu hailweithgynhyrchu neu eu hailgylchu; mae unrhyw elw sy'n cael ei wneud o'u hailwerthu yn mynd tuag at Ymchwil Cancr.

Adolygu safonau FAWL



Mae angen adolygu a diweddarau safonau FAWL yn rheolaidd yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth neu reoliadau, codau ymarfer neu brosesau rheoli. Mae ein cwsmeriaid ar hyd y gadwyn gyflenwi yn aml yn gofyn am newidiadau hefyd i adlewyrchu gofynion defnyddwyr ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn cyd-fynd â newidiadau sy'n digwydd mewn cynlluniau gwarant eraill gan gynnwys y Tractor Coch, a chynlluniau cig eidion ac oen yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyhoeddwyd diweddariad 2018 ym mis Ebrill a daeth y newidiadau hynny i rym ar 1 Gorffennaf.

Dros y tair blynedd diwethaf, uwchraddiwyd y cynllun sawl gwaith i adlewyrchu newidiadau rheoliadol a deddfwriaethol, ac mae'r safonau diwygiedig yn cynnwys y gofynion sy'n angenrheidiol i ennill cydnabyddiaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Ymgyrch dros Ddefnyddio Gwenwyn Llygod yn Gyfrifol (CRRU). Mae sicrhau cydnabyddiaeth gan y ddau sefydliad hyn yn golygu bod Awdurdodau Lleol yn cynnal llawer llai o arolygon bwyd ar ddaliadau aelodau FAWL Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru. Ymhellach, mae aelodau FAWL yn gallu prynu holl wenwyn llygod heb orfod mynychu cwrs i ennill cymhwyster.

Yr unig newid mawr yw'r angen i gynnal adolygiad o iechyd a lles anifeiliaid gyda milfeddyg y fferm. Mae'r holl gynlluniau gwarant eraill i foch, dofednod a'r sector llaeth yn gorfod gwneud hyn eisoes, ac felly mae angen i'r sector cig eidion ac oen ddilyn. Fodd bynnag, y prif reswm am y newid yw problem ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd. Oni bai bod camau'n cael eu cymryd i leihau'r risg o ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd i iechyd dynol yn ogystal ag iechyd anifeiliaid, mae'n eithaf posibl y bydd y genhedlaeth nesaf yn talu'r pris. Mae posibilrwydd go iawn y gallai amaethyddiaeth orfod defnyddio llai o wrthfotigau pwysig iawn oni bai ein bod yn llwyddo i ddangos ein bod yn eu defnyddio'n gyfrifol.

Mae sefydliadau ffermio gan gynnwys Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru wedi dweud fwy nag unwaith mai ychydig iawn o ddefnydd a wneir o wrthfotigau ar ffermydd cig eidion a defaid. Mae'r ateb a gawn yn ein herio i brofi hynny, ac yn y dyddiau sydd ohoni lle mae prosesau'n seiliedig ar dystiolaeth, nid oes gennym ddigon o ddata i gefnogi ein dadl. Fodd bynnag, os allwn ni ddangos bod y sector yn mynd ati o ddifrif i ymdrin â phroblem ymwrthedd i wrthfotigau drwy gynnal yr adolygiadau hyn gan filfeddygon, rydym yn llawer mwy tebygol o allu parhau i ddefnyddio'r meddyginiaethau pwysig hyn. Mae'n bosibl hefyd y bydd ffermwyr yn gallu lleihau costau meddyginiaethau i anifeiliaid drwy weithio gyda'u milfeddygon.

Tra'u bod yn cynnal adolygiad o'r fath, roedd yn ymddangos yn rhesymol i ffermwyr a milfeddygon drafod materion eraill fel ymwrthedd i gyffuriau anthelmintig ar yr un pryd, o gofio bod problemau'n dod i'r golwg yn y maes hwnnw hefyd.

Rydym yn wynebu cyfnod o gryn ansicrwydd a newid: mae angen i ni allu addasu er mwyn ymdopi ag unrhyw beth a wynebwn. Mae llawer o'r materion hyn, fel Brexit, allan o'n rheolaeth. Ond gallwn wneud pethau ynghylch materion pwysig iawn fel ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd a gwrthfotigau. Gobeithiwn yn fawr y bydd ein haelodau yn cyd-weithio â ni i sicrhau ein bod yn gallu goresgyn y broblem hon er mwyn lles tymor hir y diwydiant.

Pwysigrwydd lladd llyngyr mewn Cŵn a Chathod i gynhyrchwyr da byw

Mae llawer o ddaliadau yn cadw cathod i reoli llygod, ac yn cadw cŵn i weithio'r ddiadell neu'r fuches. Dylid rhoi pwys mawr ar reoli cathod a chŵn ar ffermydd oherwydd mae'n bosibl iddynt gael effaith fawr ar iechyd a pherfformiad da byw.

Mae nifer o rywogaethau gwahanol o llyngyr parasitaidd yn gallu cael effaith niweidiol ar wartheg a defaid a bydd llawer iawn o'r llyngyr hynny yn byw'n llwyddiannus ar gathod a chŵn. Mae'r rhan fwyaf o unedau cynhyrchu da byw yn buddsoddi cryn dipyn o arian i ladd llyngyr mewn da byw, ond yn methu lladd llyngyr ar gathod a chŵn y fferm. Mae methu â lladd llyngyr yn rheolaidd mewn cathod a chŵn sy'n bresennol ar y fferm yn gallu effeithio ar gynhyrchiant da byw, ac mae'n bosibl y bydd rhai carcasau yn cael eu gwrthod yn y lladd-dy (e.e. *C. ovis* neu/a *C. tenuicollis*).

Mae Safonau FAWL yn nodi y dylid lladd llyngyr ar holl gŵn a chathod ffermydd yn rheolaidd, **ac y dylid cadw cofnodion yn y llyfr meddyginiaethau**. Os oes angen cyngor arnoch ynghylch lladd llyngyr mewn cŵn neu gathod, dylech gysylltu â'ch milfeddyg.

Llyngyr rhuban

Mae'n bosibl i gŵn gael eu heintio â llyngyr rhuban os ydynt yn amlyncu systiau o ofal neu garcasau amrwd; ymhen amser, gallant ddatblygu'n llyngyr rhuban llawn o fewn llwybr treuliad y cŵn. Mae'r ci wedyn yn ysgarthu wyau'r llyngyr ac mae'n hawdd i dda byw ar y buarth neu borfa amlyncu'r wyau hynny. Mae'r wyau sydd wedi'u hamlyncu yn deor ac yn mudo i'r da byw, a gallant ddatblygu'n systiau. Mae llyngyr rhuban yn gallu achosi cryn golledion gan gynnwys perfformiad gwael ac amserau gorffen hirach pan fydd da byw yn colli archwaeth (yn enwedig defaid) o ganlyniad i heintiad cymedrol i ddwys. Mae'n gallu arwain at broblemau iechyd eraill hefyd yn sgil gwrthimiwnedd. Mae'r broblem hon hefyd yn gallu arwain at glefyd Hydatid mewn bodau dynol.

Tocsoplasmosis

Mae tocsoplasmosis gondii yn barasit sy'n effeithio ar ddefaid. Mae'n achosi erthylid sy'n golygu colledion economaidd. Mae'n filhaint, sy'n golygu ei fod yn gallu effeithio ar fodau dynol gan arwain at gam-esgor neu farw-enedigaethau ymhlith merched. Mae heintiadau drwy Tocsoplasmosis yn aros fel systiau meinwe yn ymennydd a chyhyrau anifeiliaid, gan gynnwys defaid. Mae cathod yn cynhyrchu wyau tocsoplasma (oosystiau) yn eu hysgarthion – cathod yw'r prif gynhaliwr. Mae defaid yn gallu dal yr haint wedi iddynt amlyncu oosystiau sydd wedi halogi porfeydd, porthiant crynodedig neu ddŵr.

Nid yw lladd llyngyr mewn cathod yn cael effaith, ond mae yna frechlyn effeithiol i rwystro tocsoplasmosis mewn defaid. Er hynny, fe'ch cyngorir bob amser i archwilio storfeydd porthiant a chafnau dŵr i sicrhau nad oes ysgarthion cathod yn bresennol, gan fod Tocsoplasmosis yn gallu achosi perygl i fodau dynol.

Newyddion organig

Cynhyrchu organig ar gynydd yn 2018: mae ffigurau a ryddhawyd yn ddiweddar gan Defra yn dangos bod nifer y cynhyrchwyr organig yn y DU wedi cynyddu am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, a bod 6600 o gynhyrchwyr organig yn y DU erbyn hyn.

Cynhyrchwyr da byw a chynhyrchwyr cymysg yw'r rhan fwyaf o'r cynhyrchwyr organig hyn, gyda chynnydd o ran cynhyrchu defaid organig (cynnydd dros 5%), dofednod (cynnydd o 8.5%) a moch (bron dwbl nifer y moch organig).

Mae tir organig wedi cynyddu bron 2% ers 2017, gyda 517,000 hectar o dir bellach yn organig yn y DU.

Diffyg cydymffurfiad yn 2018

Dyma'r achosion mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfiad sy'n codi yn ystod arolygiadau rheolaidd:

1. Dim caniatâd ymlaen llaw ar gyfer prynu da byw anorganig
 - Mae'n rhaid i chi geisio dod o hyd i stoc organig yn y lle cyntaf
 - Os nad oes stoc organig ar gael, mae'n rhaid gofyn am ganiatâd ymlaen llaw drwy gwblhau'r ffurflen gais rhanddirymu a'i danfon i'r swyddfa
 - Uchafswm y lwfans blynyddol:
Defaid 20%
Gwartheg 10%
Mae'n rhaid i Defra gymeradwyo unrhyw geisiadau am randdirymu sydd dros y lwfansau hyn
2. Dim caniatâd ymlaen llaw ar gyfer hau hadau anorganig
 - Dylid cysylltu â'r swyddfa neu wirio www.organicxseeds.com i weld beth sydd ar gael
 - Os nad yw'r math sydd ei angen (neu ddewis arall amgen addas) ar gael, bydd angen i chi wneud cais am randdirymu
 - Mae'n rhaid i'r holl hadau sy'n cael eu hau fod heb eu trin
3. Dim dogfen drosglwyddo i gyd-fynd â da byw organig a werthwyd
 - Mae'n rhaid cael dogfen drosglwyddo i gyd-fynd ag unrhyw anifeiliaid a werthwyd fel rhai organig
 - Mae dogfennau templed i'w cael ar ein gwefan: www.welshorganic.co.uk neu cysylltwch â'r swyddfa i ofyn amdanynt

Rydym yn y broses o ddiweddarau ein Taflenni Cofnodi a Ffurflenni Rhanddirymu. Mae copiâu o'r dogfennau sydd wedi'u diweddarau ar dudalen flaen ein gwefan, yn yr adran Dolenni Cyflym. Fel arall, gallwch gysylltu â'r swyddfa ar dystio a gallwn e-bostio neu bostio'r ffurflenni sydd eu hangen arnoch. **Swyddfa: 01970 636688**




WLBP – Gwefannau Cymdeithasol



Dilynwch ni: @WLBProducers



Hoffwch ni:
Cofnodion Fferm WLBP Farm Records



Instagram

Dilynwch ni: WLBProducers